

Response by Cymdeithas yr Iaith Gymraeg to the consultation by the Democracy and Boundary Commission Cymru – 2026 Review: Initial Proposals

Cymdeithas yr Iaith is an organisation that has campaigned in a non-violent way for the Welsh language and all communities in Wales as part of the global revolution for freedom and justice for over 60 years.

Background

1. Cymdeithas yr Iaith welcomes the fact that this consultation is being held as a key step towards fulfilling the amendments to the Senedd which were agreed by a supermajority of Members of the Senedd earlier this year, following the passing of the Senedd Cymru (Members and Elections) Act 2024. The changes, by taking full advantage of the opportunities they offer, will strengthen the Senedd's ability to act positively on behalf of the people of Wales, with policy and legislation involving the Welsh language and the interests of Welsh communities being central to that work. They will also introduce an electoral system that is fairer and more proportional, with the complete abolition of the first-past-the-post system in Senedd elections, which will contribute to the international revolution for rights and freedom, and freedom for Wales specifically as an independent, democratic country playing its part on the international stage.

2. Although successive Welsh Governments and Members of the Senedd in general since 1999 have failed to do enough to restore the Welsh language as the main language of Wales and to ensure that it truly belongs to everyone, especially in the field of education and regarding its decline in its traditional strongholds, there is no doubt that there has been progress in terms of the status of the Welsh language and the sense of pride in the language that has developed during the first quarter century of devolution. It is in that spirit that we see the decision of the elected Members – in terms of the process for naming the proposed constituencies – in the case of boundaries to be used just once in the 2026 election, and in subsequent elections after 2030, to establish a clear assumption in favour of determining a single name for each constituency. Against the backdrop of a policy and legislation framework where:
 - Welsh is a language with official status in accordance with the Welsh Language (Wales) Measure 2011
 - 'A Wales of vibrant culture and thriving Welsh language' is one of the 7 well-being aims in accordance with the sustainable development legislation of the Future Generations (Wales) Act 2015
 - there is a target with cross-party support to have a million Welsh speakers by 2050 and to double its daily use, and
 - where the Welsh language, according to our national government, 'belongs to all'

then it is quite clear that one Welsh name is intended and desired by the Senedd when scrutinising and improving the act. We note that the Bill was strengthened during its scrutiny period, as it was compared to the Bill as introduced, in order to tip the balance

in favour of the Welsh language. Indeed, you only need to look at the legislation's Explanatory Memorandum, as amended following Stage 2, which includes a Welsh language Impact Assessment to confirm the intention.

*“310. Following amendments made at Stage 2, the Bill provides that each constituency must have a single name for the purposes of identifying the constituency in communication through both Welsh and English, unless the Commission considers this to be unacceptable, in which case it may propose different names for use in communication through Welsh and English. This means that there is a presumption that the DBCC will seek to give a single name to a Senedd constituency. **This is intended to facilitate and promote the use of the Welsh language and take forward the Welsh Government’s stated 79 policy and aspirations in terms of language policy.**” (Our emphasis)*

*712. Following amendments to the Bill at Stage 2, the presumption has now changed so that the DBCC will seek to give a single name to a Senedd constituency, and will only propose different names for communication through the medium of Welsh and English if the Commission consider it unacceptable to do so. **The effect of this in practice means that the single constituency names proposed must be acceptable for use through the medium of Welsh.** (Again, our emphasis) In a scenario where there would be different names in English and Welsh proposed, the requirement to include both names in the English and Welsh versions of reports remains.*

This is supported and highlighted by the contributions of the Elected Members in the Minutes of Proceedings when scrutinising and agreeing the legislation and the amendments made to it.

3. To coincide with the developments we refer to above, we welcome the fact that a new statutory function has been given to the Welsh Language Commissioner – namely the requirement for the Commission to consult the Commissioner in advance on the orthography of any proposed names at different times throughout the review process and to give attention to her comments, and to make the Commissioner a statutory consultee in the public consultation periods so she has an opportunity to give an expert opinion on the substance of the choice of names in addition to their orthography, in line with her overall function of promoting and facilitating the Welsh language and to be an independent champion for the language. We consider the promotion of the Commissioner and the statutory formalisation of her role in this respect to be an appropriate and timely recognition of her role as an authority on recommending the standard form of place names, creating an expectation that the Commissioner’s opinion will carry additional and fresh weight that should not be ignored, as has happened in the past in local and community boundary reviews. We also welcome the efforts to avoid the carelessness and confusion that has arisen from the work of the Commission’s predecessor, by creating a duty that the Welsh language needs to be treated appropriately in the Welsh and English versions of the Commission’s documents and reports following consultation, particularly in this respect as the final proposals come into force without a vote in the Senedd.

4. It is also to be welcomed that, for the first time, we have a statutory body in Wales which is overseen by the Senedd and is responsible for reviewing the boundaries of the Senedd constituencies. So too the fact that the Welsh language is a material consideration when drawing up these boundaries, with the Welsh language being a relevant local link as a result of further amendments made to the Bill at the time. Therefore, with new functions comes a responsibility to act differently and better, particularly if the body wishes to gain and maintain the respect and support of the people of Wales and their elected representatives who has entrusted this body to do this work on our behalf as citizens. As far as we can see, the Commission has been given a green light and clear instructions from the Elected Members who determine the framework that the Commission must follow when carrying out reviews in terms of the treatment of the Welsh language – we note that the Commission does a great deal in the document to emphasise the fact that it is acting on the instructions of the Senedd. We consider that the same is true in terms of the naming system and therefore the Welsh language, and that the Commission should not deviate from what it has been asked to do. We express our disbelief regarding the fact that the clear principles and guidance in the act, along with the emphasis of the policy framework and wider legislation in terms of the Welsh language, have not been applied appropriately to these initial proposals, in section 2 of the response.

The proposals

5. We are limiting our comments to issues relating to the Welsh language and the naming of constituencies, rather than wider questions relating to the choice of constituencies to be paired.
6. We regret that the Commission, so far, has not met the expectations upon it in terms of the Welsh language when carrying out key work regarding the future of our democracy. We believe it to be an extremely serious matter that the Commission appears to be obstructing the will of Elected Members of the Senedd with the approach to naming constituencies, which is contrary to the letter and spirit of the act. We find it hard to understand on what basis the Commission has decided that it is unacceptable, in a majority of cases, to propose a Welsh-only name, even when it goes against the precedents that have already been set with the Westminster constituency boundaries that this exercise is pairing. Consider Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire, for example, when pairing the constituencies of Carmarthen and Llanelli. The monolingual name “Caerfyrddin” has already been accepted at Westminster level for this seat. In other cases, however, such as Clwyd, where a single Welsh name is proposed to be used in both languages, the Commission appears to deem it acceptable to use a single, monolingual name, as the Act envisages in the vast majority of cases. The result of this is treating areas differently from each other, ignoring the fact that the Welsh language belongs to everyone in Wales, and creating inconsistencies and results that are contrary to the intent of the legislation. We have written to you separately to raise a complaint under your complaints procedure on these wider issues regarding the apparent lack of

logic in the Commission's procedure, inviting you to set out on what grounds, and which principles you have adopted to inform the process which has led to these proposals.

7. It is also regrettable that the Commission, despite the new statutory basis for the elevated role of the Welsh Language Commissioner in the process, seems to have ignored her recommendations on the orthography of names such as 'Alun' in Welsh and 'Alyn' in English. Again, a detailed explanation is needed about how the Commission has 'paid attention' to the Commissioner's recommendation and then come to a decision that is contrary to that recommendation – on what basis and using which of its own expertise and principles has it done so? Again, we expect a full response to this in response to the separate correspondence we have sent to you to raise a formal complaint about the matter under your complaints procedure. Our aim in corresponding is to establish the appropriateness of the procedure and the overall approach to naming for this 2026 review, and to establish what changes are needed before the next stages in the process to ensure that the next stages can be carried out in accordance with the act and the wider policy and legislation framework for the Welsh language. However, our aim in this response is to influence the substance of the names as we go on to do in section 3 of the response.
8. Of the 16 new proposed constituencies, only two have Welsh-only names, another 14 are bilingual – which is completely unnecessary in many cases where spelling is the only difference between the Welsh and English.
9. Further, the Commission has ignored the Welsh Language Commissioner's statutory recommendations in two cases, without giving any explanation for doing so. In both cases, the Welsh Language Commissioner's comments are completely reasonable. It must be asked what is the purpose of having the Welsh Language Commissioner as a consultee if the Commission does not act on her comments?
10. The Welsh Language Commission suggests using one spelling of 'Alun' in the English name of the constituency of Alun, Deeside and Wrexham; and suggests using Pen-y-bont ar Ogwr as the Welsh name for the Vale of Glamorgan and Bridgend constituency. In both cases, the Commission's proposals state that the Welsh Language Commissioner agrees with the orthography. That is not actually correct as there are suggestions to change them.

Possible recommendations as a way forward

11. In order to show how possible it is to have shorter monolingual Welsh names, which are accessible to all and, indeed, more suitable than a system for naming out communities that has been slavishly adopted from Westminster and too often lumps together unfamiliar names, we have proposed possible alternatives that address that aim, depending of course on whether these constituencies will be adopted as they are as the process progresses or whether there will be changes. We also accept that naming is a matter of taste and that there are several options available – from simple names relating

to the geography of an area to more historical names and opportunities to restore them. The central principle of having a single Welsh name, has driven our suggestions, with an attempt to keep things as simple as possible. Obviously, the exact names will need to be adapted as the process progresses if there is a change in the proposed pairings. Nevertheless, we believe that it offers a new framework that is more appropriate, in line with the objectives of the Act and the wishes of the elected representatives of the people of Wales. This is done in an attempt to find a constructive way forward.

12. The table below identifies our proposals in one column and the corresponding name in the Commission's proposals in the other column.

Cymdeithas yr Iaith's proposals	The Democracy and Boundary Commission Cymru's proposals
Conwy Môn	Bangor Aberconwy Ynys Môn
Clwyd	Clwyd
Fflint Wreccsam	Alyn, Deeside and Wrexham / Alun, Glannau Dyfrdwy a Wreccsam
Eryri Maldwyn	Dwyfor Meirionnydd, Montgomeryshire and Glyndŵr / Dwyfor Meirionnydd, Maldwyn a Glyndŵr
Penfro Ceredigion	Ceredigion and Pembrokeshire / Ceredigion a Sir Benfro
Sir Gâr	Carmarthenshire / Sir Gaerfyrddin
Gŵyr Tawe	Swansea West and Gower / Gorllewin Abertawe a Gŵyr
Nedd Powys	Brecon, Radnor, Neath and Swansea East / Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe
Afan Rhondda	Aberafan Maesteg, Rhondda and Ogmore / Aberafan Maesteg, Rhondda ac Ogwr
Taf Cynon	Merthyr Tydfil, Aberdare and Pontypridd / Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd
Ebwy Rhymni	Blaenau Gwent, Rhymney and Caerphilly / Blaenau Gwent, Rhymni a Chaerffili
Gwent	Monmouthshire and Torfaen / Sir Fynwy a Thorfaen
Casnewydd	Newport and Islwyn / Casnewydd ac Islwyn
Caerdydd Taf	Cardiff East and North / Dwyrain a Gogledd Caerdydd

Caerdydd Elái	Cardiff West, South and Penarth / Gorllewin Caerdydd, De a Phenarth
Ogwr Morgannwg	Vale of Glamorgan and Bridgend / Bro Morgannwg a Phen-y-bont

13. The Commission states that its policy is to list the names of the UK's parliamentary constituencies in alphabetical order following the order of the Welsh names when creating a new name for the Senedd constituencies. In those cases in our proposals that name more than one existing constituency, we are not opposed to changing their order.

**Cymdeithas yr Iaith Right to the Welsh Language Group
September 2024**

Ymateb Cymdeithas yr Iaith Gymraeg i ymgynghoriad Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru - Arolwg 2026: Cynigion Cychwynnol

Mae Cymdeithas yr Iaith yn fudiad sydd wedi ymgyrchu'n ddi-drais dros y Gymraeg a holl gymunedau Cymru, fel rhan o'r chwyldro rhyngwladol dros ryddid a chyfiawnder ers dros 60 mlynedd.

Cefndir

1. Mae'r Gymdeithas yn croesawu'r ffaith fod yr ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal fel cam allweddol at wireddu'r diwygiadau i'r Senedd a gytunwyd drwy uwch-fwyafrif gan Aelodau'r Senedd yn gynharach eleni, yn sgil pasio Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024. Bydd y newidiadau, o fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y maent yn eu cynnig, yn cryfhau gallu'r Senedd i weithredu yn gadarnhaol ar ran pobl Cymru, gyda pholisi a deddfwriaeth o ran y Gymraeg a buddiannau cymunedau Cymru yn ganolog i'r gwaith hwnnw. Byddant hefyd yn cyflwyno system etholiadol sy'n decach ac yn fwy cyfrannol, dan ddileu'n llwyr y drefn Cyntaf i'r Felin yn etholiadau'r Senedd, sy'n gyfraniad at y chwyldro rhyngwladol dros hawliau a rhyddid, a rhyddid i Gymru yn benodol fel gwlad annibynnol, ddemocrataidd sy'n chwarae ei rhan ar y llwyfan rhyngwladol.
2. Er bod Llywodraethau olynol Cymru ac Aelodau'r Senedd yn gyffredinol ers 1999 wedi methu â gwneud digon i adfer y Gymraeg yn brif iaith Cymru ac i sicrhau ei bod yn wirioneddol berthyn i bawb, yn enwedig ym maes addysg a'i thranc yn ei chadarnleoedd traddodiadol, does dim dwywaith fod cynnydd wedi bod o ran statws y Gymraeg a'r ymdeimlad o falchder tuag at yr iaith sydd wedi datblygu yn ystod chwarter canrif cyntaf datganoli. Yn yr ysbryd hwnnw felly y gwelwn benderfyniad yr Aelodau etholedig - o safbwynt y drefn o enwi etholaethau arfaethedig - yn achos y ffiniau i'w defnyddio un-tro yn unig yn etholiad 2026, ac mewn etholiadau dilynol wedi 2030, i sefydlu rhagdybiaeth clir o blaid pennu un enw ar bob etholaeth. Yn erbyn cefnlen fframwaith polisi a deddfwriaeth lle mae:
 - y Gymraeg yn iaith a chanddi statws swyddogol yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
 - 'Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' yn un o'r 7 nod llesiant yn unol â'r ddeddfwriaeth datblygu cynaliadwy Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
 - targed â chefnogaeth drawsbleidiol i gael Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac i ddyblu'r defnydd dyddiol ohoni, a
 - lle mae'r Gymraeg, yn ôl ein llywodraeth genedlaethol, yn 'perthyn i bawb'

yna mae'n bur amlwg mai un enw Cymraeg a fwriedir ac a ddymunir gan y Senedd wrth graffu ar a chymeradwyo'r ddeddf. Nodwn fod y Bil wedi'i *gryfhau* yn ystod cyfnod craffu'r Bil, fel ag yr oedd, o'i gymharu â'r Bil fel y'i cyflwynwyd, a hynny er mwyn pwysu'r fantol o blaid y Gymraeg. Yn wir, nid oes ond angen edrych yn y Memorandwm

Esboniadol y ddeddfwriaeth, fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 2, sy'n cynnwys Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, i gadarnhau'r bwriad.

*“310. Yn dilyn gwelliannau a wnaed yng Nghyfnod 2, mae'r Bil yn darparu bod rhaid i bob etholaeth gael enw unigol at ddibenion adnabod yr etholaeth mewn cyfathrebiad drwy'r Gymraeg a'r Saesneg, oni bai bod y Comisiwn yn ystyried y byddai hyn yn annerbyniol, ac os felly caniateir iddo gynnig enwau gwahanol i'w defnyddio wrth gyfathrebu drwy'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn yn golygu bod rhagdybiaeth y bydd y Comisiwn yn ceisio rhoi un enw i etholaeth yn y Senedd. **Bwriad hyn yw hwyluso a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a bwrw ymlaen â pholisïau a dyheadau datganedig Llywodraeth Cymru o ran polisi iaith.**” (ein pwyslais ni)*

*712. Yn dilyn gwelliannau i'r Bil yng Nghyfnod 2, mae'r rhagdybiaeth bellach wedi newid fel y bydd y Comisiwn yn ceisio rhoi un enw i etholaeth yn y Senedd, ac ni fydd ond yn cynnig enwau gwahanol ar gyfer cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg pe bai'r Comisiwn yn ystyried bod un enw yn annerbyniol. **Effaith hyn yn ymarferol yw bod rhaid i'r enwau unigol a gynigir ar gyfer etholaethau fod yn dderbyniol i'w defnyddio yn y Gymraeg.** (eto, ein pwyslais ni) Mewn sefyllfa lle byddai enwau gwahanol yn cael eu cynnig yn y Gymraeg a'r Saesneg, mae'r gofyniad i gynnwys y ddau enw yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg o adroddiadau yn parhau.*

Ategir a thanlinellir hyn gan gyfraniadau'r Aelodau Etholedig yng Nghofnod y Trafodion wrth graffu a chytuno'r ddeddfwriaeth a'r gwelliannau wnaed iddi.

3. I gyd-fynd gyda'r datblygiadau y cyfeiriwn atynt uchod, croesawn y ffaith fod swyddogaeth statudol newydd wedi'i rhoi i Gomisiynydd y Gymraeg - sef rheidrwydd i'r Comisiwn rag-ymgynghori gyda'r Comisiynydd ar orgraff enwau arfaethedig ar wahanol gymalau yn y broses adolygu ac i roi sylw i'w sylwadau, ac i wneud y Comisiynydd yn ymgynghorai statudol yn y cyfnodau o ymgynghori cyhoeddus fel bod cyfle ganddi i roi barn arbenigol ar sylwedd y dewis o enwau yn ogystal â'u horgraff, yn unol â'i swyddogaeth gyffredinol o hybu a hwyluso'r Gymraeg ac i fod yn bencampwr annibynnol dros yr iaith. Ystyriwn fod dyrchafu'r Comisiynydd a ffurfioli yn statudol ei rôl yn y cyswllt yma yn gydnabyddiaeth briodol ac amserol o'i rôl fel awdurdod ar argymell ffurfiau safonol enwau lleoedd, gan greu disgwyliad y bydd barn y Comisiynydd yn cario pwysau ychwanegol ac o'r newydd na ddylid ei anwybyddu fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol mewn adolygiadau ffiniau lleol a chymunedol. Croesawn hefyd fod ymdrechion i osgoi blerwch a dryswch sydd wedi codi o waith rhagflaenydd y Comisiwn, drwy greu dyletswydd bod angen trin y Gymraeg yn briodol yn fersiynau Cymraeg a Saesneg dogfennau ac adroddiadau'r Comisiwn yn dilyn ymgynghori, yn arbennig yn y cyswllt hwn gan y daw'r cynigion terfynol i rym heb bleidlais yn y Senedd.
4. Mae i'w groesawu hefyd bod gennym am y tro cyntaf gorff statudol yng Nghymru, sy'n cael ei oruchwylio gan y Senedd ac sy'n gyfrifol am adolygu ffiniau etholaethau'r Senedd. Felly hefyd y ffaith fod y Gymraeg yn ystyriaeth faterol wrth lunio'r ffiniau hynny,

gyda'r Gymraeg yn gwllwm lleol perthnasol hefyd yn sgil gwelliannau pellach wnaed i'r Bil ar y pryd. Gyda swyddogaethau newydd felly, daw cyfrifoldeb i weithredu yn wahanol ac yn well, yn enwedig os yw'r corff am ennyn a chynnal parch a chefnogaeth pobl Cymru a'u cynrychiolwyr etholedig sydd wedi ymddiried yn y corff yma i wneud y gwaith ar ein rhan fel dinasyddion. Hyd y gwelwn, mae'r Comisiwn wedi derbyn golau gwyrdd a chyfarwyddyd clir gan yr Aelodau Etholedig sy'n pennu'r fframwaith y mae'n rhaid i'r Comisiwn ei ddilyn wrth gynnal adolygiadau o ran triniaeth y Gymraeg - nodwn fod y Comisiwn yn gwneud llawer yn y ddogfen i bwysleisio'r ffaith mai gweithredu ar gyfarwyddiadau'r Senedd a wna. Ystyriwn fod yr un peth yn wir o ran y drefn enwi a'r Gymraeg felly ac na ddylai'r Comisiwn wyro oddi wrth yr hyn ofynnwyd iddo'i wneud. Amlygwn ein anghrediniaeth ynghylch y ffaith nad yw'r egwyddorion a'r cyfarwyddyd clir yn y ddeddf, ynghyd â phwyslais y fframwaith polisi a deddfwriaeth ehangach o ran y Gymraeg, wedi eu cymhwyso i'r cynigion cychwynnol hyn yn briodol, yn adran 2 yr ymateb.

Y cynigion

5. Rydym yn cyfyngu ein sylwadau i'r materion yn ymwneud â'r Gymraeg ac enwi etholaethau, yn hytrach na chwestiynau ehangach yn ymwneud â'r dewis o etholaethau i'w pario.
6. Rydym yn gresynu nad yw'r Comisiwn hyd yma wedi cyrraedd y disgwyliadau sydd arno o ran y Gymraeg wrth fynd ati i gynnal gwaith allweddol ynghylch dyfodol ein democratiaeth. Ystyriwn ei fod yn fater difrifol tu hwnt yr ymddengys fod y Comisiwn yn rhwystro ewyllys Aelodau Etholedig y Senedd gyda'r dull o enwi etholaethau, sy'n groes i lythyren ac ysbryd y ddeddf. Mae'n anodd gennym ddeall ar ba sail mae'r Comisiwn wedi penderfynu ei bod yn annerbyniol yn y mwyafrif o achosion i gynnig enw uniaith Gymraeg, hyd yn oed pan fo hynny'n mynd yn groes i gynseiliau sydd eisoes wedi eu sefydlu gyda ffiniau etholaethau San Steffan y mae'r ymarfer hwn yn eu paru. Ystyrir Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire er enghraifft, er mwyn paru etholaethau Caerfyrddin a Llanelli. Mae'r enw uniaith "Caerfyrddin" eisoes wedi'i dderbyn ar lefel San Steffan ar gyfer y sedd honno. Mewn achosion eraill, serch hynny, megis Clwyd, lle cynigir un enw Cymraeg i'w ddefnyddio yn y ddwy iaith, ymddengys fod y Comisiwn o'r farn ei bod yn dderbyniol defnyddio un enw uniaith fel y mae'r Ddeddf yn ei ragweld yn y mwyafrif llethol o achosion. Canlyniad hyn yw trin ardaloedd yn wahanol i'w gilydd, anwybyddu'r ffaith fod y Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru, a chreu anghysondeb a chanlyniadau sy'n groes i fwriad y deddfwriaeth. Rydym wedi gohebu atoch ar wahân i godi cwyn o dan eich gweithdrefn gwynion ar y materion ehangach yma ynghylch diffyg rhesymeg ymddangosiadol gweithdrefn a dull enwi'r Comisiwn, gan eich gwahodd i osod allan ar ba sail, a pha egwyddorion yr ydych wedi'u mabwysiadu, i lywio'r broses sydd wedi arwain at y Cynigion hyn.
7. Mae'n resyn o beth hefyd fod y Comisiwn, er gwaetha'r sail statudol newydd i rôl ddyrchafedig y Comisiynydd iaith yn y broses, fel petai wedi anwybyddu ei argymhellion

ar orgraff enwau megis 'Alun' yn Gymraeg ac 'Alyn' yn Saesneg. Eto, mae angen esboniad manwl am sut y gwnaeth y Comisiwn 'roi sylw' i argymhelliad y Comisiynydd ac yna dod i benderfyniad sy'n groes i hynny - ar ba sail ac yn defnyddio pa arbenigedd ac egwyddorion o'i eiddo ei hun y gwnaeth hyn? Eto, disgwyliwn ymateb llawn i hynny mewn ymateb i'r ohebiaeth ar wahân yr ydym wedi ei hanfon atoch i godi cwyn ffurfiol am y mater o dan eich gweithdrefn gwynion. Ein nod wrth ohebu yw sefydlu priodoldeb y weithdrefn a'r dull o enwi yn gyffredinol ar gyfer yr adolygiad 2026 hwn a sefydlu pa newidiadau sydd eu hangen iddynt cyn cymalau nesaf y broses er mwyn sicrhau y gall y camau nesaf gael eu cynnal yn unol â'r ddeddf a'r fframwaith polisi a deddfwriaeth ehangach ar gyfer y Gymraeg. Fodd bynnag, ein nod yn yr ymateb hwn yw dylanwadu ar sylwedd yr enwau fel yr awn ymlaen i'w wneud yn adran 3 yr ymateb.

8. O'r 16 etholaeth newydd a gynigir, dim ond dau sydd ag enw uniaith Gymraeg iddyn nhw, mae 14 arall yn ddwyieithog - sy'n hollol ddiangen mewn sawl achos lle mai sillafiad yw'r unig wahaniaeth rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.
9. Ymhellach, mae'r Comisiwn wedi anwybyddu argymhellion statudol Comisiynydd y Gymraeg mewn dau achos, heb roi unrhyw esboniad dros hynny. Yn y ddau achos mae sylwadau Comisiynydd y Gymraeg yn hollol rhesymol. Rhaid gofyn pa ddiben sydd bod Comisiynydd y Gymraeg ym ymgynghorai os nad yw'r Comisiwn yn gweithredu ar sylwadau.
10. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn awgrymu defnyddio un sillafiad o Alun yn enw Saesneg etholaeth Alun, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam; ac yn awgrymu defnyddio Pen-y-bont ar Ogwr yn enw Cymraeg etholaeth Bro Morgannwg a Phen-y-bont.
Yn y ddwy achos dywed cynigion y Comisiwn bod Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r orgraff. Dydy hynny ddim yn gywir mewn gwirionedd, gan fod awgrymiadau i'w newid.

Argymhellion posib fel ffordd ymlaen

11. Er mwyn dangos pa mor bosib yw cael enwau uniaith, Cymraeg, byrrach, sy'n hygyrch i bawb, ac yn wir yn fwy addas na threfn wedi'i mabwysiadu yn slafaid o San Steffan i enwi ein cymunedau sy'n pentyrru enwau dieithr yn rhy aml, rydym wedi cynnig enwau amgen posib sy'n cyfarch y nod hwnnw, yn ddibynnol wrth gwrs ar ai'r etholaethau hyn fydd yn cael eu mabwysiadu fel y maent wrth i'r broses fynd ymlaen neu a fydd newidiadau. Derbyniwn hefyd mai mater o chwaeth yw enwi a bod sawl opsiwn ar gael - o enwau syml ynghylch daearyddiaeth ardal i enwau mwy hanesyddol a'r cyfleoedd sydd i'w hadfer. Yr egwyddor canolog o gael enw uniaith, yn Gymraeg, sydd wedi gyrru ein hawgrymiadau, gydag ymgais i gadw pethau mor syml ag sy'n bosib. Yn amlwg, bydd angen i chi addasu'r union enwau wrth i'r broses fynd yn ei blaen os bydd newid i'r parau a gynigir. Serch hynny, credwn ei fod yn cynnig fframwaith o'r newydd sy'n fwy priodol, yn gyfryw ag amcanion y Ddeddf a dymuniadau cynrychiolwyr etholedig pobl Cymru. Gwneir hynny mewn ymgais i ganfod ffordd adeiladol ymlaen.

12. Nodir yn y tabl isod ein cynigion ni mewn un rhes, ac enw cyfatebol cynigion y Comisiwn yn y rhes arall.

Cynigion Cymdeithas yr Iaith	Cynigion Y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth
Conwy Môn	Bangor Aberconwy Ynys Môn
Clwyd	Clwyd
Fflint Wrecsam	Alun, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam
Eryri Maldwyn	Dwyfor Meirionnydd, Maldwyn a Glyndŵr
Penfro Ceredigion	Ceredigion a Sir Benfro
Sir Gâr	Sir Gaerfyrddin
Gŵyr Tawe	Gorllewin Abertawe a Gŵyr
Nedd Powys	Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe
Afan Rhondda	Aberafan Maesteg, Rhondda ac Ogwr
Taf Cynon	Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd
Ebwy Rhymni	Blaenau Gwent, Rhymni a Chaerffili
Gwent	Sir Fynwy a Thorfaen
Casnewydd	Casnewydd ac Islwyn
Caerdydd Taf	Dwyrain a Gogledd Caerdydd
Caerdydd Elái	Gorllewin Caerdydd, De a Phenarth
Ogwr Morgannwg	Bro Morgannwg a Phen-y-bont

13. Dywed y Comisiwn mae ei bolisi yw rhestru enwau etholaethau seneddol y DU yn nhrefn yr wyddor gan ddilyn trefn yr enwau Cymraeg wrth greu enw newydd ar etholaethau'r Senedd. Yn yr achosion hynny yn ein cynigion sydd yn enwi mwy nag un etholaeth bresennol, nid ydym yn gwrthwynebu newid eu trefn.